# Agenda - Pwyllgor Diben Arbennig ar gyfer Cymru ar Ymchwiliad Covid-19

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCovid@senedd.wales

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09:25 - 09:30)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

(09:30)

**2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

(09:30 - 09:35)

Gweddill y cyfarfod.

**3 Protocol cyd-gadeirio a ffyrdd o weithio'r Pwyllgor**

(09:35 - 10:30) (Tudalennau 1 - 24)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Diwygio Rheolau Sefydlog:** Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

Gorffennaf 2023

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell bod y Senedd yn cytuno ar Reol Sefydlog dros dro – Rheol Sefydlog 35 – i wneud darpariaethau ar gyfer gweithredu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, a sefydlwyd gan y Senedd ar 16 Mai 2023.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yr amlinellir yn Atodiad A.

# Cynnwys

1. Y cefndir ....................................................................................................3
2. Cyd-gadeirio ....................................................................................................4
3. Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes ....................................5
Swyddogaethau a phrotocol Cyd-gadeirydd ....................................................5
Swydd wag Cyd-gadeirydd....................................................................................6
Absenoldeb Cyd-gadeirydd....................................................................................7
Y Rheol Sefydlog dros dro yn dod i ben.............................................................7
4. Penderfyniad....................................................................................................9
Atodiad A: Rheol Sefydlog Arfaethedig 35. .....................................................10

# 1. Y cefndir

**1.** Ar 16 Mai 2023, cytunodd y Senedd i sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru (“y Pwyllgor Diben Arbennig Covid”).

**2.** Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2023, penderfynodd y Pwyllgor Busnes gynnig penodi Cyd-gadeiryddion i’r Pwyllgor Diben Arbennig Covid. Nododd y Pwyllgor Busnes fod y cysyniad o Gyd-gadeiryddion yn newydd i’r Senedd, ac nad oedd y Rheolau Sefydlog erioed wedi cael eu dehongli o’r blaen i ddarparu i bwyllgor fod â mwy nag un cadeirydd.

**3.** Ar 24 Mai 2023, derbyniodd y Senedd y cynnig perthnasol yn y Cyfarfod Llawn i roi effaith i’r cynnig hwn. Mewn perthynas â threfniadau cyd-gadeirio, nododd y cynnig:

- y caiff cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at “gadeirydd” pwyllgor eu dehongli i olygu “cyd-gadeirydd”;
- bod rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan Gyd-gadeiryddion y Pwyllgor Diben Arbennig Covid;
- y dylai busnes cychwynnol y Pwyllgor Diben Arbennig Covid ystyried y gweithdrefnau y mae’n bwriadu eu mabwysiadu i gyflawni’r dibenion y mae wedi’i sefydlu ar eu cyfer (gan gynnwys gweithredu’r trefniadau cyd-gadeirio) ac argymell unrhyw ddiwygiadau i’r Rheolau Sefydlog y mae’n ystyried eu bod yn angenrheidiol neu’n fuddiol i hwyluso ei waith;
- y bydd y Pwyllgor Busnes yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i’r Rheolau Sefydlog y mae o’r farn bod eu hangen i hwyluso gwaith y Pwyllgor Diben Arbennig Covid, gan ystyried unrhyw argymhellion ar gyfer diwygiadau a wneir gan y Pwyllgor Diben Arbennig Covid.

**4.** Yng ngoleuni natur newydd y trefniant cyd-gadeirio, trafododd y Pwyllgor Busnes ei oblygiadau ymarferol, gweithdrefnol a chyfreithiol yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2023.

# 2. Cyd-gadeirio

**5.** Mae cynnig y Pwyllgor Busnes ar gyfer trefniant cyd-gadeirio ar gyfer y Pwyllgor Diben Arbennig Covid yn fwriadol wahanol i fodelau rhannu swyddi cadeirio.[1] Yn benodol, mae'r cynnig yn seiliedig ar ddehongli arfer swyddogaethau cadeirio ar y cyd i olygu na fyddai'r naill na'r llall o'r Cyd-gadeiryddion yn gallu gweithredu'n unochrog mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor, ac na fyddent yn gyfrifol nac yn atebol yn unigol am elfennau unigol o'r rôl, h.y. byddai'r ddau Gyd-gadeirydd nid yn unig yn gyfrifol ar y cyd bob amser am y canlynol ond hefyd yn cymryd rhan yn y canlynol:

- yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â'r pwyllgorau, ac
- arfer yr holl swyddogaethau cadeirio.

**6.** Mae hyn yn wahanol i rannu swydd lle, yn fwy cyffredin, caiff cyfrifoldeb ac awdurdod eu rhannu rhwng y ddau bartner yn y trefniant. Er enghraifft, o rannu swydd, gall y partneriaid benderfynu gweithio ar y sail bod y rôl wedi'i rhannu yn ôl amser (e.e. gydag un partner yn arwain ar (ac yn atebol am) y rôl o ddydd Llun i ddydd Mercher, a'r partner arall ar ddydd Iau a dydd Gwener), neu wedi'i rhannu yn ôl tasgau, dyletswyddau neu feysydd pwnc penodol. Yn sail i'r rhan fwyaf o drefniadau rhannu swydd mae'r egwyddor bod un partner yn y trefniant yn gallu cyflawni'r dasg dan sylw ar ran y ddau ohonynt. Er y gallai'r partneriaid ddymuno cytuno ar ddulliau clir a chyson ac egwyddorion sylfaenol ar y dechrau, nid yw'r ddau ohonynt yn cymryd rhan ym mhob penderfyniad nac yn arfer yr holl swyddogaethau gyda'i gilydd.

**7.** O ystyried trefniadau seneddau eraill yn y lle cyntaf, ymddengys nad yw trefniant cyd-gadeirio fel yr un a gynigiwyd ar gyfer y Pwyllgor Diben Arbennig Covid – h.y. na all y naill na'r llall o'r partneriaid yn y trefniant weithredu heb gytundeb y llall – yn bodoli mewn mannau eraill. Er hynny, ystyriwyd enghreifftiau sydd yn bodoli o drefniadau sy'n ymwneud â mwy nag un unigolyn mewn rôl gadeirio er mwyn helpu'r Pwyllgor Busnes wrth iddo drafod sut y gallai trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol ar gyfer trefniadau'r Pwyllgor Diben Arbennig Covid weithio'n ymarferol.[2]

[1] Nid yw'r Senedd yn gweithredu trefniadau rhannu swydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bwriad y Pwyllgor Busnes yw ystyried y mater hwn fel rhan o'i flaenraglen waith weithdrefnol yn ystod y Senedd hon.

[2] Ymhlith yr enghreifftiau a ystyriwyd roedd trefniadau rhannu swydd mewn rhai Awdurdodau Lleol yn Lloegr, canllawiau a ddyroddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain mewn perthynas â

# 3. Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

**8.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried bod nifer o oblygiadau ymarferol a gweithdrefnol i'r trefniant cyd-gadeirio ar gyfer y Pwyllgor Diben Arbennig Covid y mae angen cynnwys darpariaeth newydd a/neu eglurhad ar eu cyfer yn y Rheolau Sefydlog. Ar y sail honno, mae'r Pwyllgor Busnes yn credu bod angen Rheol Sefydlog dros dro ar gyfer y Pwyllgor Diben Arbennig Covid.

## Swyddogaethau a phrotocol Cyd-gadeirydd

**9.** Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Senedd yn y cyfarfod ar 24 Mai 2023, a benododd Cyd-gadeiryddion y Pwyllgor Diben Arbennig Covid, yn nodi:

- bod cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at "gadeirydd" pwyllgor i gael eu dehongli i olygu "Cyd-gadeirydd" y Pwyllgor;
- bod rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan y Cyd-gadeiryddion;

**10.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried, er eglurder a thryloywder, y dylid ailadrodd y gofynion hyn yn y Rheol Sefydlog dros dro ac y dylid cynnwys datganiad clir bod rhaid i'r Pwyllgor Diben Arbennig Covid fod â dau Gyd-gadeirydd. At hynny, o ystyried cyfranogiad y ddau gyd-gadeirydd yn yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â'r pwyllgorau, a'u cyfrifoldeb amdanynt, mae'r Pwyllgor Busnes yn credu y byddai'n well dehongli cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at "gadeirydd" pwyllgor i olygu "Cyd-gadeiryddion" yn hytrach na "Chyd-gadeirydd".

**11.** Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn cydnabod rhai o'r heriau ymarferol a allai godi pan fydd y ddau Gyd-gadeirydd bob amser yn gyfrifol ar y cyd am arfer yr holl swyddogaethau a phenderfyniadau cadeirio ac yn ymwneud ag arfer y swyddogaethau a'r penderfyniadau hynny. Ar y sail honno, mae'n ystyried y dylai fod gofyniad yn y Rheol Sefydlog dros dro i gytuno ar brotocol rhwng y Cyd-gadeiryddion sy'n nodi eu ffyrdd o weithio ar y cyd, ac i'r protocol hwn gael ei gyhoeddi er eglurder a thryloywder.

---

threfniadau rhannu swydd ar fyrddau, trefniadau ar gyfer cadeirio Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE a'r mecanweithiau a fabwysiadwyd ar gyfer y Cytundeb Cydweithredu a'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

**12.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn credu y dylai'r protocol hwn nodi, o leiaf, ddull cytunedig y Cyd-gadeiryddion o ran y canlynol:

- cadeirio cyfarfodydd (gan gynnwys trefniadau ar gyfer penderfyniadau 'yn y fan a'r lle' sydd eu hangen yn ymarferol, er enghraifft galw'r Aelodau, cynnal trefn, caniatáu i faterion sy'n ymwneud ag achos llys gweithredol gael eu codi, a gohirio cyfarfod neu atal cyfarfod dros dro);
- arfer swyddogaethau ymarferol y tu allan i gyfarfodydd (gan gynnwys, er enghraifft, drefniadau ar gyfer cymeradwyo papurau ac adroddiadau drafft, gohebiaeth, cymryd rhan ym musnes y Senedd yn rhinwedd eu swydd fel Cyd-gadeirydd, a chynrychioli'r Pwyllgor Diben Arbennig Covid yn gyhoeddus); a
- datrys anghydfodau.

## Swydd wag Cyd-gadeirydd

**13.** Mae darpariaethau presennol yn y Rheolau Sefydlog sy'n ymdrin â swydd wag cadeirydd pwyllgor wedi'u seilio ar y cysyniad mai dim ond un cadeirydd sydd. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried bod angen eglurhad ynghylch sut y byddai swydd wag Cyd-gadeirydd yn y Pwyllgor Diben Arbennig Covid yn cael ei thrin.

**14.** Trafododd y Pwyllgor Busnes yr effaith pe bai un o ddwy swydd y Cyd-gadeiryddion yn wag. Mae'n dod i'r casgliad a ganlyn:

- bod pob Cyd-gadeirydd yn dal ei swydd yn annibynnol ar y llall – hynny yw, nid yw'r ffaith bod swydd un Cyd-gadeirydd yn wag yn golygu bod swydd y Cyd-gadeirydd arall yn wag hefyd;
- bod swydd Cyd-gadeirydd yn y Pwyllgor Diben Arbennig Covid yn dod yn wag pan fydd yr Aelod dan sylw:
  - yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Busnes;
  - yn cael ei ddiswyddo o'r Pwyllgor drwy benderfyniad gan y Senedd;
  - yn cael ei ethol yn gadeirydd pwyllgor arall;
  - yn peidio â bod yn Aelod;

  – yn ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n gadael grŵp gwleidyddol.

- pan fo swydd Cyd-gadeirydd yn dod yn wag, fod rhaid i'r Pwyllgor Busnes, yn gyntaf, wahodd y grŵp gwleidyddol y penodwyd y Cyd-gadeirydd hwnnw ohono i enwebu un newydd. Os nad enwebir Cyd-gadeirydd newydd o fewn pum niwrnod gwaith (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan nad yw'r Senedd yn eistedd), bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd i'r drefn sefydledig ar gyfer ymdrin â swyddi gwag eraill ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau (h.y. ystyried effaith y swydd wag ar gydbwysedd cadeiryddion pwyllgorau rhwng grwpiau, cyflwyno cynnig i newid y grŵp gwleidyddol y penodir Cyd-gadeirydd y Pwyllgor ohono, a – gan roi sylw i'r ystyriaeth honno – cyflwyno un neu ragor o gynigion i newid y grŵp gwleidyddol yr etholir cadeirydd unrhyw bwyllgor arall ohono);

- y dylid nodi'r holl drefniadau uchod yn y Rheol Sefydlog dros dro.

## Absenoldeb Cyd-gadeirydd

**15.** Hefyd, trafododd y Pwyllgor Busnes effaith absenoldeb dros dro un, neu'r ddau, o'i Gyd-gadeiryddion, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cadeirio dros dro.

**16.** Er mwyn osgoi amheuaeth ynghylch a allai un Cyd-gadeirydd weithredu yn absenoldeb y Cyd-gadeirydd arall, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Rheol Sefydlog dros dro nodi, os bydd un Cyd-gadeirydd, neu'r ddau ohonynt, yn absennol, fod rhaid i'r Pwyllgor benodi Cyd-gadeirydd Dros Dro yn lle pob Cyd-gadeirydd absennol.

**17.** Wrth gydnabod yr hyblygrwydd a roddir i bwyllgorau yn Rheol Sefydlog 17.22 i benodi'r Aelod y maent yn ei ddewis yn gadeirydd dros dro, mae'r Pwyllgor Busnes yn credu y dylai'r protocol y mae'r Cyd-gadeiryddion yn cytuno arno nodi y dylai unrhyw Gyd-gadeirydd Dros Dro a benodir yn eu habsenoldeb fod o'r un grŵp gwleidyddol â'r Cyd-gadeirydd absennol.

## Y Rheol Sefydlog dros dro yn dod i ben

**18.** Trafododd y Pwyllgor Busnes drefniadau ar gyfer pan ddaw'r Rheol Sefydlog dros dro i ben.

**19.** Gan fod darpariaethau'r Rheol Sefydlog dros dro yn ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Diben Arbennig Covid (a fydd yn peidio â bodoli pan gaiff y Senedd ei diddymu), ac mai mater i'r Senedd nesaf fydd pennu strwythur cyffredinol

pwyllgorau, daw'r Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylai'r Rheol Sefydlog dros dro ddod i ben yn dilyn penderfyniad gan y Senedd y dylai'r Pwyllgor Diben Arbennig Covid ddod i ben, neu pan gaiff y Senedd ei diddymu, pa un bynnag sydd gyntaf.

# 4. Penderfyniad

**20.** Ar 4 Gorffennaf 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, a gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheol Sefydlog dros dro newydd arfaethedig yn Atodiad A.

# Atodiad A: Rheol Sefydlog Arfaethedig 35.

## 35. RHEOL SEFYDLOG 35 – Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

35.1. Mae Rheol Sefydlog 35 yn gwneud darpariaethau dros dro ar gyfer gweithredu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ("y Pwyllgor"), a sefydlwyd gan y Senedd ar 16 Mai 2023. Bydd Rheol Sefydlog 35 yn peidio â chael effaith yn dilyn penderfyniad gan y Senedd y dylai'r Pwyllgor ddod i ben, neu pan gaiff y Senedd ei diddymu, pa un bynnag sydd gyntaf. Pan fo darpariaethau a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 35 yn gwrthdaro â darpariaethau eraill y Rheolau Sefydlog, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r rhai yn Rheol Sefydlog 35 .

### Cyd-gadeiryddion: Swyddogaethau

35.2. At ddibenion y Pwyllgor:

(i) mae cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at gadeirydd pwyllgor i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at Gyd-gadeiryddion;

(ii) rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan y Cyd-gadeiryddion.

35.3 Rhaid i'r Cyd-gadeiryddion gytuno ar brotocol sy'n nodi eu ffyrdd o weithio ar y cyd, a'i gyhoeddi.

### Cyd-gadeiryddion: Nifer

35.4. Rhaid i'r Pwyllgor fod â dau Gyd-gadeirydd.

### Cyd-gadeiryddion: Swydd wag

35.5. Daw swydd Cyd-gadeirydd y Pwyllgor yn wag pan fydd yr Aelod dan sylw:

(i) yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Busnes;

(ii) yn cael ei ddiswyddo o'r Pwyllgor drwy benderfyniad gan y Senedd;

(iii) yn cael ei ethol yn gadeirydd pwyllgor arall;

(iv) yn peidio â bod yn Aelod;

(v) yn ymuno â grŵp gwleidyddol neu'n gadael grŵp gwleidyddol.

35.6 Nid yw'r ffaith bod swydd un Cyd-gadeirydd yn wag yn golygu bod swydd y Cyd-gadeirydd arall yn wag.

35.7 Pan fo swydd Cyd-gadeirydd yn dod yn wag, yn gyntaf rhaid i'r Pwyllgor Busnes wahodd y grŵp gwleidyddol y penodwyd y Cyd-gadeirydd hwnnw ohono i enwebu un newydd. Os derbynnir enwebiad o fewn pum niwrnod gwaith (heb gyfrif diwrnodau gweithio mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd), rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 gan gynnig penodi'r Cyd-gadeirydd newydd hwnnw.

35.8 Os na chaiff Cyd-gadeirydd newydd ei enwebu o fewn yr amserlenni a amlinellir o dan Reol Sefydlog 35.7:

(i) rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried effaith y swydd wag honno ar gydbwysedd cadeiryddion y pwyllgorau o ran y grwpiau gwleidyddol;

(ii) caiff y Pwyllgor Busnes, gan roi sylw i'r ystyriaeth honno, gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i newid y grŵp gwleidyddol y caniateir ethol cadeirydd y pwyllgor lle y cododd y swydd wag ohono;

(iii) caiff y Pwyllgor Busnes, gan roi sylw i'r ystyriaeth honno, hefyd gyflwyno un neu fwy o gynigion o dan Reol Sefydlog 17.2A i newid y grŵp gwleidyddol y caniateir ethol cadeirydd unrhyw bwyllgor arall ohono.

### Cadeirydd Dros Dro

35.9 Os bydd un Cyd-gadeirydd, neu'r ddau ohonynt, yn absennol, rhaid i'r Pwyllgor benodi Cyd-gadeirydd dros dro yn lle pob Cyd-gadeirydd absennol.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon